Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Tachwedd 2025

# CDLI Newydd Caerdydd

## Datganiad o'r prif faterion a awgrymir i'w hystyried yn yr archwiliad a gweithdrefn awgrymedig ar gyfer ymdrin â nhw




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk


Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd

## Datganiad o'r prif faterion a awgrymir i'w hystyried yn yr archwiliad a gweithdrefn awgrymedig ar gyfer ymdrin â nhw

## Tachwedd 2025

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

# Cyflwyniad

1.1 Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r prif faterion sy'n codi o'r sylwadau a wnaed ac yn cynnwys amlinelliad o'r ymateb i'r materion hyn. Drwy wneud hynny mae'n darparu datganiad o'r prif faterion i'w hystyried yn yr archwiliad. Mae adrannau 2 i 16 yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r ystyriaeth o'r materion canlynol. Mae rhagor o fanylion am y sylwadau unigol ac ymatebion y Cyngor wedi'u nodi yn yr atodiadau i'r Adroddiad Ymgynghori.

- Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth
- Twf a strategaeth tai
- Tai Fforddiadwy
- Sipsiwn a Theithwyr
- Trafnidiaeth
- Economi a Chyflogaeth
- Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd
- Perygl Llifogydd a Rheoli Adnoddau Dŵr
- Sero Net, Ynni Adnewyddadwy a Newid Hinsawdd
- Treftadaeth
- Llygredd Aer a Sŵn a Thir Halogedig
- Dylunio a Chreu Lleoedd
- Y Gymraeg; a
- Mwynau a Gwastraff
- Y Broses Ymgynghori

# 2. Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth

2.1 Roedd nifer gymharol isel o ymatebion yn cyfeirio'n benodol at faterion gweledigaeth, amcanion, strategaeth neu 'gynllun cyfan' y CDLlN. Roedd y materion hynny a godwyd yn cynnwys yr angen am ddull mwy rhanbarthol a phryderon ynghylch darparu atebion trafnidiaeth a seilwaith ehangach ynghlwm â safleoedd tai strategol y CDLl mabwysiedig i'w cario ymlaen i'r CDlIN. Roedd cefnogaeth hefyd i nifer o bolisïau yn y Cynllun.

2.2 Ar y cyfan, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gymhellol i ddangos nad yw strategaeth y CDLl yn gynhenid gadarn. Yn wir, mae'r weledigaeth, y dystiolaeth a'r strategaeth yn ymateb i'r angen amlwg i wneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd. Ystyrir bod y strategaeth nid yn unig yn darparu'r lefel briodol o dwf yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol ond hefyd yn fwriadol yn gosod fframwaith i reoli'r datblygiad angenrheidiol hwn. Mae'r dull uwchgynllunio sydd wedi'i ymgorffori yn y strategaeth yn cydnabod yr angen i gyflwyno seilwaith newydd, darparu datrysiadau trafnidiaeth gynaliadwy a lliniaru effeithiau datblygiadau newydd mewn ffordd reoledig.

2.3 Mae Polisïau Strategol, Polisïau Manwl a gwybodaeth ategol yn gwbl gyson â'r weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth gyffredinol. Gyda'i gilydd, maent yn dangos sut y gellir cyflawni'r strategaeth drosfwaol.

2.4 O ran cyfeiriadau at y dimensiwn dinas-ranbarth, dylid pwysleisio fod deialog gydweithredol drawsffiniol sylweddol wedi digwydd i helpu i lywio'r Cynllun ac mae'r cynllun yn helpu i gyflawni'r weledigaeth o Gaerdydd yn ganolbwynt i ddinas-ranbarth ffyniannus ac roedd consensws cryf ar gyfer yr ymagwedd hwn, fel y dangosir gan y ffaith nad yw awdurdodau cyfagos wedi codi unrhyw wrthwynebiadau i'r Cynllun.

2.5 Bydd deialog yn parhau gyda phartneriaid o bob rhan o'r ddinas-ranbarth, yn enwedig gyda'r gofyniad i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Fodd bynnag, nid yw CDS newydd yn debygol o fod ar waith tan o leiaf 2031 a bydd CDLlNau yn parhau i fod yn rhan o'r hierarchaeth Cynlluniau Datblygu.

2.6 Felly, mae'r angen i Gaerdydd sicrhau bod ganddi CDLlN cyfredol ar waith yn parhau i fod yn hollbwysig i oresgyn y problemau gwirioneddol a achosir o gael Cynlluniau Datblygu sydd wedi dyddio, cyflenwad annigonol o dir tai a galw cuddiedig am gartrefi newydd. Mae apeliadau wedi cael eu colli am gartrefi newydd yng nghefn gwlad felly mae yna angen ar frys i atal datblygiadau 'ad hoc' pellach trwy ddarparu fframwaith i reoli'n effeithiol y broses o ddarparu cartrefi newydd, swyddi a seilwaith cysylltiedig angenrheidiol.

# 3. Graddfa Twf Tai a Strategaeth

3.1 Er mwyn darparu ar gyfer twf cynaliadwy a diwallu angen amlwg am dai yn effeithiol, mae'r cynllun yn nodi strategaeth i ddarparu 26,400 o anheddau dros gyfnod y cynllun 2021 i 2036.

3.2 Mae'r CDLlN Adneuo yn cynnig darparu ar gyfer cartrefi newydd dros gyfnod y cynllun trwy gyfuniad o:

- Anheddau sydd eisoes wedi'u hadeiladu (ers 2021);
- Anheddau sy'n cael eu hadeiladu;
- Anheddau â chaniatâd cynllunio/ yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106;
- Addasiadau i'r stoc dai dros gyfnod y cynllun;
- Lwfansau annisgwyl ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun;
- Safleoedd Strategol - Polisi H1A
- Safleoedd Anstrategol - Polisi H1B
- Ardaloedd Adfywio a Arweinir Gan Dai H2; a
- Lwfans hyblygrwydd os oes angen 10% ychwanegol.

3.3 Mae hyn yn cyfateb yn gyffredinol i dros 50% o gartrefi yn cael eu darparu o safleoedd tir llwyd.

3.4 Gellir grwpio ymatebion a dderbyniwyd i'r categorïau canlynol:

## Datblygiad Tir Llwyd vs Maes Glas

- Cefnogaeth i strategaeth tir llwyd yn gyntaf:  Croesawodd llawer o ymatebwyr bwyslais y cynllun ar adfywio tir llwyd a'r penderfyniad i beidio â dyrannu safleoedd maes glas newydd.
- Pryderon am hyfywedd tir llwyd:  Nododd sawl sylw fod safleoedd tir llwyd yn aml yn anoddach i'w cyflawni oherwydd costau adfer a chyfyngiadau seilwaith.
- Galwad am ddyraniadau safleoedd bach:  Tynnodd adeiladwyr busnesau bach a chanolig (BBaCh) sylw at y diffyg safleoedd tir llwyd bach (<50 uned), sy'n cyfyngu ar amrywiaeth a chyflawnadwyedd y farchnad.
- Ardaloedd adfywio dan arweiniad tai: Cefnogaeth i'r ardaloedd ond pryderon am or-ddibyniaeth ar safleoedd a ddyrannwyd yn flaenorol heb ailasesu.
- Hyblygrwydd a thargedau:  Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i gynyddu lwfansau hyblygrwydd oherwydd heriau cyflenwi tir llwyd a thanberfformiad safleoedd presennol.

## Opsiynau Twf

- Beirniadaeth o dargedau twf isel:  Tynnodd yr ymatebwyr sylw at y ffaith bod y gofyniad tai arfaethedig yn brin o uchelgais ac nad yw'n adlewyrchu rôl Caerdydd fel prifddinas.
- Cefnogaeth ar gyfer senarios twf uwch:  Roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn C (twf uchel) i fynd i'r afael â thangyflawni hanesyddol a galw yn y dyfodol.
- Pryderon cydbwysedd rhanbarthol:  Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai strategaeth twf Caerdydd effeithio'n negyddol ar ardaloedd cyfagos yn ne-ddwyrain Cymru.

## Cyfraddau Cyflawni

- Taflwybr Darparu Tai: Cododd ymatebwyr bryderon bod y gyfradd ddarparu flynyddol a ragwelir (1,600 o gartrefi y flwyddyn) yn afrealistig yn seiliedig ar berfformiad yn y gorffennol.
- Oedi Plasdŵr: Cyfeiriodd ymatebwyr at y cyflawniad araf ym Mhlasdŵr a'i effaith ar seilwaith a'r cyflenwad tai.
- Monitro a phwyntiau sbarduno: Gofynnodd ymatebwyr am fecanweithiau cliriach i sicrhau bod seilwaith yn cael ei gyflawni yr un pryd â chwblhau tai.

## Dyraniad Tir

- Gor-ddibyniaeth ar safleoedd ymrwymedig:  Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod 70% o'r cyflenwad tai eisoes wedi'i ymrwymo, gan

gyfyngu ar hyblygrwydd ac ymateboldeb.

- Angen ailasesu safleoedd a ddyrannwyd yn flaenorol: Galwodd ymatebwyr am adolygiad o'r newydd o safleoedd a ddyrannwyd yn flaenorol i gadarnhau eu hyfywedd a'u cyflawnadwyedd.
- Galw am ystod fwy o safleoedd Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i gynnwys safleoedd llai, mwy ystwyth i gydbwyso'r dyraniadau strategol.

- Cefnogaeth ar gyfer dyraniadau newydd: Cynigiodd rhai ymatebwyr safleoedd ychwanegol (e.e. Brummell Drive) i arallgyfeirio'r portffolio tir.

## Hyfywedd Safleoedd Strategol

- Pryderon hyfywedd: Nododd yr ymatebwyr fod safleoedd strategol yn cael eu gweld yn araf i'w cyflawni oherwydd dibyniaeth ar seilwaith a chymhlethdodau cynllunio.

3.5 Mewn ymateb i sylwadau am lefel y twf, ystyrir bod y lefel gyffredinol o dwf a gynhwysir yn y CDLlN Adneuo yn cynrychioli ffigur cadarn a rhesymol ac ystyrir ei fod yn adlewyrchu orau ddadansoddiad o'r holl ffactorau perthnasol. Yn bwysig, mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ystyried yr holl ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru ac yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol. Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n nodi'r ddinas fel Ardal Dwf Genedlaethol, yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cyngor ac amcanion y CDLlN ac yn ymateb yn effeithiol i'r angen dystiolaethu glir i ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi newydd.

3.6 Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni'r rhagamcanion swyddogol ac ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir gan ystyried yr ystod lawn o ffactorau;

- Darparu cartrefi angenrheidiol mewn modd rheoledig sy'n diogelu elfennau allweddol o amgylchedd Caerdydd;
- Bodloni ffactorau cyflawni a chapasiti - mae'r CDLlN yn cynnwys cynigion a mecanweithiau sy'n cyfiawnhau sut y gellir mynd i'r afael yn ddigonol â materion cyflawni a chapasiti; a
- Ymateb mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r safbwyntiau gwahanol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar opsiynau strategol.

3.7 Mae'r Cynllun yn cynnwys ystod eang a dewis o safleoedd a all fod ar gael ar unrhyw un adeg gan y bydd gan bob safle gyfradd gyflenwi flynyddol gyfyngedig yn seiliedig ar ffactorau/cyfyngiadau safle-benodol a ffactorau marchnata sy'n ymwneud â chyflenwad a galw. Mae'r ymagwedd yn caniatáu datblygiad graddol safleoedd dros gyfnod o amser. Bydd taflwybrau darpariaeth ar gyfer pob safle Strategol yn cael eu diweddaru ymhellach trwy gyswllt parhaus â datblygwyr sy'n adlewyrchu nifer yr allfeydd sydd ar gael ar unrhyw adeg ynghyd â'r cymysgedd o ddarparwyr preifat a fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'r gwaith a wnaed hyd yma yn dangos yr angen am ddarpariaeth gytbwys ar draws yr holl Safleoedd Strategol yn ystod y cyfnod cynllun sy'n weddill i sicrhau ystod a dewis digonol ar unrhyw un adeg sydd yn ei dro yn

cefnogi'n uniongyrchol gyflawni'r gyfradd adeiladu flynyddol, sy'n ofynnol i ddiwallu'r angen a dystiolaethwyd.

3.8 Ar y cyfan, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gymhellol i ddangos bod strategaeth y CDllN yn gynhenid anghywir. Yn wir, mae lefel y twf yn ymateb i'r angen amlwg i wneud darpariaeth ar gyfer cartrefi newydd. Ystyrir bod lefel y twf nid yn unig yn darparu'r lefel briodol o dwf yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol ond hefyd yn nodi'n fwriadol fframwaith i reoli'r datblygiad angenrheidiol hwn. Mae'r dull uwchgynllunio sydd wedi'i ymgorffori yn y cynllun yn cydnabod yr angen i gyflwyno seilwaith newydd, darparu datrysiadau trafnidiaeth cynaliadwy a lliniaru effeithiau datblygiad newydd mewn ffordd reoledig.

3.9 Ymdrinnir â sylwadau a godwyd ynghylch yr angen am ddull rhanbarthol ym mharagraffau 2.4 i 2.5, uchod.

# 4. Tai Fforddiadwy

4.1 Mae’r polisi tai fforddiadwy sydd wedi ei gynnwys yn y CDLlN Adneuo a’r nod i gynorthwyo'r Cyngor i ddiwallu yr angen amlwg am dai drwy geisio cyfraniad tai fforddiadwy priodol gan ddatblygiadau preswyl newydd yn y ddinas. Mae'r polisi yn nodi targed o 20% o dai fforddiadwy ar safleoedd tir llwyd a 30% o dai fforddiadwy ar safleoedd maes glas ym mhob datblygiad preswyl sy'n cynnwys 10 neu fwy o anheddau neu sy'n fwy na 0.3 hectar o arwynebedd safle gros.

4.2 Gellir grwpio ymatebion a ddaeth i law i’r categorïau canlynol:

## Targedau Fforddiadwyedd

- Pryderon tangyflawni: Mae llawer o ymatebwyr, gan gynnwys y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Chymdeithas Ddinesig Caerdydd, yn dadlau bod y cynnig i ddarparu 5,000–6,000 o gartrefi fforddiadwy yn sylweddol is na'r angen a nodwyd.
- Polisi H3 Tai Fforddiadwy: Galwodd ymatebwyr am fwy o hyblygrwydd ym Mholisi H3 i ddarparu ar gyfer gwahanol gymysgeddau deiliadaeth gan gynnwys modelau Disgownt i’r Rent Marchnad (DMR) ac Adeiladu-i-Rhentu.
- Hyfywedd a throthwyon: Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i ailedrych ar asesiadau hyfywedd ac ystyried trothwyon is i sicrhau cyflawnadwyedd ledled Caerdydd.
- Tai dan arweiniad y gymuned Cefnogodd ymatebwyr ddyrannu safleoedd yn benodol ar gyfer mentrau tai fforddiadwy dan arweiniad y gymuned.
- Llywodraeth Cymru: Datganodd y dylid dyrannu safleoedd lle mae o leiaf 50% o gartrefi yn fforddiadwy i gyrraedd targedau Cymru'r Dyfodol.

## Cymysgedd Tai

- Amrywiaeth deiliadaeth: Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i ddarparu ystod o ddeiliadaethau, gan gynnwys rhent cymdeithasol, rhannu perchnogaeth, a thai marchnad agored.
- Tai i deuluoedd: Galwodd ymatebwyr am fwy o unedau maint teulu, yn enwedig mewn ardaloedd fel Grangetown.
- Pobl hŷn: Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i gydnabod poblogaeth sy'n heneiddio Caerdydd a'r angen am dai sy'n cefnogi byw'n annibynnol.
- Myfyrwyr a chyd-fyw: Cododd ymatebwyr bryderon am or-grynhoi a fforddiadwyedd mewn datblygiadau tai myfyrwyr.

4.3 Mewn ymateb i'r sylwadau ar dangyflawni ystyrir bod y targed ar gyfer darparu cartrefi fforddiadwy yn briodol gan ystyried y banc tir o safleoedd presennol sydd â chaniatâd cynllunio, Rhaglen Partneriaeth Tai y Cyngor a chanfyddiadau astudiaeth Avison Young Viability a sefydlodd y targedau hyfywedd ar gyfer datblygiadau tai pellach.

4.4 Mewn ymateb i sylwadau yn chwilio am ddiffiniad ehangach o dai fforddiadwy, mae'n bwysig cofio bod y diffiniad yn y CDLlN Adneuo yn cyd-fynd â chanllaw Llywodraeth Cymru sy'n nodi fod tai fforddiadwy yn cynnwys tai rhent cymdeithasol a thai canolradd lle mae mecanwaith ddiogel ar waith i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rheini nad ydynt yn gallu fforddio tai'r farchnad agored, i'r meddianwyr cyntaf a meddianwyr dilynol. O ystyried yr angen i'r Cynllun gydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol, byddai'n amhriodol cynnwys diffiniad ehangach yn y Cynllun.

4.5 O ran y targedau a nodir yn y Polisi, dylid pwysleisio bod y targedau yn deillio o ganfyddiadau'r astudiaeth hyfywedd tai a gynhaliwyd gan Avison Young a asesodd hyfywedd ystod o senarios tai ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau gyda lefelau amrywiol o dai fforddiadwy. Er mwyn dangos hyfywedd ac ystyried y costau uwch sy'n gysylltiedig â datblygu safleoedd tir llwyd, argymhellodd yr astudiaeth darged tai fforddiadwy dwy haen ac mae'n cadarnhau bod tai fforddiadwy yn hyfyw ar 30% ar safleoedd maes glas ac 20% ar safleoedd tir llwyd tra'n gwneud darpariaeth ar gyfer 'costau polisi' eraill gan gynnwys seilwaith cymunedol.

4.6 Mewn ymateb i'r materion eraill, mae'n bwysig nodi y bydd eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r sylwadau sy'n ceisio eglurhad pellach ar ystod o faterion.

# 5. Sipsiwn a Theithwyr

5.1 Mae'r CDllN Adneuo yn nodi polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd, ac mewn ymateb i'r angen a welir yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALlSTh), yn dyrannu

safle ar gyfer 80 o leiniau yn Lawnt Pengam. Fe'i nodwyd yn flaenorol fel rhan o astudiaeth annibynnol a oedd yn asesu safleoedd posibl o fewn y ddinas i ddarparu ar gyfer yr angen hwn ac mae'n dilyn meini prawf a nodir mewn canllawiau cenedlaethol sy'n ymwneud ag argaeledd, addasrwydd a chyflawnadwyedd.

5.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i'r categorïau canlynol:

## Darpariaeth Safle

- Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r safle arfaethedig yn Lawnt Pengam, y bwriedir iddo ddiwallu'r angen llawn o 117 o leiniau erbyn 2036.
- Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru yr angen am broses ddethol safle gadarn, gan gynnwys asesiadau perygl llifogydd ac aliniad â chanllawiau cenedlaethol (Cylchlythyr 005/2018).
- Cynigiodd rhai ymatebwyr ddyrannu pob un o'r 117 llain yn Lawnt Pengam Green i gydgrynhoi'r ddarpariaeth.

## Pryderon Lleoliad

- Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu lleoliad Lawnt Pengam oherwydd ei agosrwydd at ardaloedd diwydiannol a'r pwysau cymdeithasol presennol ac awgrymu safleoedd amgen yng Ngogledd Caerdydd er mwyn osgoi gorlwytho cymunedau yn y de a'r dwyrain.
- Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bryderon am effaith weledol ac amgylcheddol safleoedd Teithwyr ar raddfa fawr mewn ardaloedd trefol.

## Effaith ar y Gymuned

- Dywedodd yr ymatebwyr ei bod yn bwysig integreiddio plant Teithwyr i ysgolion lleol a dylai'r safle newydd gefnogi cynhwysiant cymdeithasol ac osgoi ynysu'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## Anghenion Seilwaith

- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am seilwaith digonol, gan gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth, draenio, a chyfleusterau cymunedol.

## Eglurder Polisi

- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am iaith gliriach yn y CDLlN ynghylch gwahanol gamau safleoedd, amserlenni cyflenwi, a chyfrifoldebau rheoli a monitro.

5.3 Mewn ymateb i'r sylw sy'n ymwneud â'r broses o ddewis safleoedd, mae'n

bwysig nodi bod yr astudiaeth annibynnol yn dilyn y meini prawf a nodir mewn canllawiau cenedlaethol a bod yr holl safleoedd a ystyriwyd yn destun ymchwiliad a dadansoddiad trylwyr.

5.4 Mae rhesymau cryf dros gefnogi maint arfaethedig y safle er y cydnabyddir y byddai'r safle ar raddfa fawr yng nghyd-destun Cymru ac yn uwch na'r maint safle a argymhellir mewn canllawiau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn hefyd yn nodi y gall awdurdodau lleol dybio ei bod yn angenrheidiol bod yn hyblyg drwy ganiatáu mwy o leiniau ar safle wrth ystyried amgylchiadau lleol a'r lefel o angen presennol. Ar ben hynny, mae profiad y Cyngor o weithredu safle Shirenewton â 59 llain wedi dangos y gellir rheoli safleoedd mawr yn effeithiol iawn gan ddarparu buddion i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr a galluogi darparu gwasanaethau ategol yn effeithiol. Mae'r safle'n caniatáu datblygiad rhesymegol fesul cam lle gellir darparu lleiniau mewn modd rheoledig a threfnus ynghyd ag integreiddio darparu'r cyfleusterau ategol.

5.5 Mewn ymateb i'r materion eraill a godwyd gan ymgyngoreion, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau ynghlwm â'r materion hyn. Felly, nid yw'r newidiadau a gynigir yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

# 6. Trafnidiaeth

6.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn nodi ystod o bolisïau ar ddarparu datrysiadau trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol. Mae'r polisïau hyn yn darparu cyfres o bolisïau ategol i roi ymagwedd newydd ar waith i sicrhau bod tua 75% o'r holl deithiau ar rwydwaith trafnidiaeth Caerdydd yn cael eu gwneud trwy foddau trafnidiaeth gynaliadwy erbyn 2030.

6.2 Gellir grwpio ymatebion a ddaeth i law i'r categorïau canlynol:

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Diogelu gorsafoedd: Galwodd ymatebwyr am ddiogelu safleoedd ar gyfer gorsafoedd newydd (e.e. Heol Crwys, Parc Caerdydd, Elly Mill, Parc y Rhath).
- Cysylltedd bws: Cododd ymatebwyr bryderon am gysylltiadau bysiau gwael yng ngogledd-orllewin a dwyrain Caerdydd ac awgrymu ffyrdd o wella cyfnewidfeydd ac ymestyn gwasanaethau.
- Integreiddio'r Metro: Roedd ymatebwyr yn cefnogi Metro De Cymru ond yn gofyn am amserlenni a lleoliadau gorsafoedd cliriach.
- Oedi seilwaith: Mynegodd ymatebwyr bryderon nad yw seilwaith trafnidiaeth yn cael ei gyflawni law yn llaw â datblygiadau tai.
- Tagfeydd digwyddiadau: Cododd ymatebwyr bryderon am dagfeydd traffig yn ystod digwyddiadau mawr

## Teithio Llesol

- Dyluniad lonydd beicio: Beirniadodd ymatebwyr gynlluniau'r lonydd beicio presennol, yn enwedig lle maent yn disodli lonydd bysiau.
- Heriau topograffeg: Nododd yr ymatebwyr fod tir bryniog gogledd-orllewin Caerdydd a diffyg palmentydd yn atal teithio llesol.
- Anghenion integreiddio: Galwodd ymatebwyr am integreiddio cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn well.
- Diogelwch a hygyrchedd: Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i wahanu llwybrau cerdded a beicio am resymau diogelwch.

## Cyflawni Seilwaith

- Cyflawni seilwaith: Roedd ymatebwyr yn cefnogi darparu seilwaith cyn neu law yn llaw â datblygiadau.
- A106 ac CCA: Gofynnodd ymatebwyr am Rwymedigaethau Cynllunio a Chanllawiau Cynllunio Atodol cliriach i sicrhau seilwaith amserol.
- Pryderon hyfywedd: Cododd ymatebwyr faterion ynghylch baich polisi cronnus sy'n effeithio ar ddarpariaeth seilwaith.

## Targedau Newid Moddol

- Mynegodd ymatebwyr amheuon am gyrraedd y targed trafnidiaeth gynaliadwy o 75% erbyn 2030.
- Newid Ymddygiad: Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am fwy o gymhellion a seilwaith i newid arferion teithio.
- Monitro: Gofynnodd ymatebwyr am fetrigau cliriach a mecanweithiau gorfodi i olrhain cynnydd.

## Mannau Gwefru

- Bylchau Darpariaeth: Cwestiynodd ymatebwyr sut y bydd gwefru EV yn cael ei ddarparu ar gyfer tai teras a threfol.
- Eglurder Polisi: Galwodd ymatebwyr am dargedau penodol a chynlluniau gweithredu cliriach.

## Cysylltedd Strategol

- Integreiddio Rhanbarthol: Cododd ymatebwyr bryderon am ddatblygu ger ffiniau Caerdydd sy'n effeithio ar seilwaith heb unrhyw gydlynu.
- Cynllunio Trawsffiniol: Cefnogodd ymatebwyr gydweithrediad cynnar ag awdurdodau cyfagos cyn y Cynllun Datblygu Strategol.

6.3 Mewn ymateb i sylwadau ynghylch amheuon am gyflawni'r targed o 75%, mae'r targed hwn yn deillio o waith modelu manwl ac asesu trafnidiaeth a wnaed gan y Cyngor wrth baratoi'r CDLlN. Dangosodd y gwaith hwn y bydd angen targed o 75% er mwyn osgoi lefelau o dagfeydd na ellir eu rheoli ar y rhwydwaith priffyrdd ac i gadw'r rhwydwaith yn gweithredu a chyrraedd targed y Cyngor o leihau allyriadau carbon.

6.4 Mewn ymateb i sylwadau a godwyd ynghylch cyflawni seilwaith, bydd polisïau Uwchgynllunio'r CDLlN yn galluogi'r Cyngor ymhellach i sicrhau seilwaith hanfodol mewn datblygiadau newydd ac i wneud y ddarpariaeth hon yn rhan annatod o'u dylunio a'u cyflawni. Bydd hefyd yn galluogi'r Cyngor i reoli gweithredu seilwaith trafnidiaeth mewn datblygiadau mawr. Felly, er efallai na fydd y darpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus terfynol ar gyfer safle mawr ar waith ar ddiwrnod cyntaf y datblygiad, bydd mecanweithiau ar gael i sicrhau opsiynau teithio cynaliadwy (e.e., drwy wasanaethau bws ychwanegol) i feddianwyr camau cynharach.

6.5 Mewn ymateb i'r materion eraill, ystyrir bod tystiolaeth ddigonol am y rhesymau y tu ôl i'r polisïau wedi'u nodi yn y Papur Technegol Cefndir Trafnidiaeth. Yn ogystal, darperir eglurhad pellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, ac ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb fod angen newidiadau o ran y materion hyn.

6.6 Ymdrinnir â sylwadau a godwyd ynghylch yr angen am ddull rhanbarthol ym mharagraffau 2.4 i 2.5, uchod.

# 7. Economi a Chyflogaeth

7.1 Gwneir darpariaeth yn y CDLlN Adneuo ar gyfer ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth newydd ar gyfer mathau gwahanol o gyflogaeth ac mewn lleoliadau daearyddol gwahanol er mwyn gallu darparu'n effeithiol lefel y twf sydd wedi ei osod yn y cynllun ynghyd â rhoi fframwaith ar waith i amddiffyn swyddogaeth y tir cyflogaeth presennol. Mae'r ymagwedd yma'n ymateb i rôl Caerdydd fel y prif ysgogydd economaidd yn ne-ddwyrain Cymru.

7.2 Derbyniwyd sawl ymateb, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod:

- Dylid tynnu Safle EC3.7 (Parc Busnes Caerdydd a Thir i'r gogledd o Heol Maes y Coed) o'r dynodiad cyflogaeth oherwydd ei gyd-destun defnydd a chynllunio presennol.
- Cefnogaeth i Barc Gwyddor Bywyd yn Fferm y Fforest fel rhan o adfywio dan arweiniad tai.
- Pryderon am EC2 (Parc Caerdydd): Cododd ymatebwyr bryderon oherwydd traffig, llygredd, a diffyg budd cymunedol ac awgrymu y dylid paratoi a gweithredu strategaeth creu lleoedd cydweithredol.
- Bylchau Teithio Llesol: Nododd ymatebwyr nad oes gan lawer o ardaloedd cyflogaeth seilwaith cerdded/beicio a dylai datblygiadau newydd gynnwys storio beiciau diogel a chyfleusterau staff.

- Galwodd ymatebwyr am hyblygrwydd wrth ailbwrpasu gofodau swyddfa i addasu i anghenion newidiol - ee, trosi i weithfannau creadigol, canolfannau cymunedol, neu dai fforddiadwy gyda defnyddiau masnachol ar y llawr gwaelod.

7.3 Mewn ymateb i'r rhai sy'n ceisio diwygiadau i ffiniau'r ardaloedd cyflogaeth gwarchodedig a ddiffinnir o dan Bolisi EC3, mae'r rhain wedi'u diffinio ar y sail bod yr ardaloedd hyn yn dangos potensial cryf i barhau i chwarae rôl economaidd bwysig, boed hynny i ddarparu cyflogaeth leol ar safleoedd llai o fewn cymdogaethau allweddol neu a yw'r safleoedd yn fwy strategol o ran maint, safle a swyddogaeth. O ystyried hyn bernir bod yr ardaloedd a ddangosir ar y Map Cynigion yn briodol ac mae'r Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb fod angen newidiadau o ran y materion hyn.

7.4 Mewn ymateb i sylwadau sy'n ceisio diwygiadau i'r polisïau neu'r testun ategol, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau o ran y materion hyn. Felly, nid yw'r newid arfaethedig yn cael ei ystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

7.5 Mewn ymateb i sylwadau ynglŷn â Parc Caerdydd, mae gan y datblygiad hwn ganiatâd cynllunio erbyn hyn, a bydd y materion hyn yn cael eu hystyried wrth uwchgynllunio a gweithrediad manwl y safle.

7.6 Mewn ymateb i'r materion eraill, ystyrir bod tystiolaeth ddigonol am y rhesymau y tu ôl i'r polisïau wedi'i nodi yn y Papur Technegol Cefndir Economaidd ac mae'r Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau o ran y materion hyn.

# 8. Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd

8.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn nodi ystod o bolisïau sy'n ymwneud â diogelu a gwella bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Mae asedau naturiol yn allweddol i gymeriad, gwerth, unigryw ac ymdeimlad o le Caerdydd ac maent yn cynnwys cefn gwlad ac arfordir heb eu datblygu, dyffrynnoedd afonydd, diddordebau bioamrywiaeth a choed.

8.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i'r categorïau canlynol:

## Diogelu Cynefinoedd

- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i ddiogelu SoDdGA a SoBCN, gan gynnwys safleoedd heb eu dynodi sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol.
- Gofynnodd ymatebwyr hefyd fod parciau fel safleoedd bywyd gwyllt gyda diogelwch cyfreithiol yn cael eu gwarchod.
- Cododd ymatebwyr bryderon am safleoedd tir llwyd wedi'u hailwylltu yn cael eu hanwybyddu er gwaethaf eu gwerth bioamrywiaeth a'r angen i

ddiogelu cynefinoedd o fewn y ddinas.
- Awgrymodd ymatebwyr y dylid diwygio'r iaith bolisi i sicrhau bod lliniaru a gwneud iawn yn gadarn ac yn orfodadwy.
- Cynigiodd ymatebwyr greu coridorau natur gwarchodedig sy'n cysylltu parciau, afonydd a chefn gwlad.

## Cadw Coed

- Roedd ymatebwyr yn feirniadol o arferion cwympo coed, yn enwedig mewn ardaloedd trefol ac yn argymell gorchmynion cadwraeth ar goed stryd a gardd. Hefyd, nodwyd y dylid gofyn i barciau manwerthu gynnal coed wedi'u plannu o dan amodau cynllunio.

## Enillion Net Bioamrywiaeth

- Cododd ymatebwyr bryderon am ymarferoldeb cyflawni enillion net i fioamrywiaeth o ystyried graddfa'r datblygu a gofyn am fecanweithiau gweithredu cliriach a monitro canlyniadau bioamrywiaeth.

## Cyflawni Seilwaith Gwyrdd

- Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad ar y defnydd o Ddatganiadau Seilwaith Gwyrdd yn erbyn Asesiadau a chefnogi’r gofyniad am gyfarpar GIS mewn ceisiadau cynllunio.
- Awgrymodd ymatebwyr gynnwys clustogfeydd o amgylch coetiroedd ac integreiddio bioamrywiaeth i uwchgynlluniau.

## Aliniad Polisi â Chanllawiau Cenedlaethol

- Cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i bolisïau fod yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) a gofyn iddynt alinio â safonau cenedlaethol, terminoleg a strategaethau bioamrywiaeth cenedlaethol cyfredol.

8.3 Mewn ymateb i sylwadau sy'n ceisio diwygiadau i'r polisïau neu'r testun ategol, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r materion hyn. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

8.4 Mewn ymateb i'r materion eraill, mae'n bwysig nodi y bydd eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r sylwadau sy'n ceisio eglurhad pellach ar ystod o faterion.

# 9. Perygl Llifogydd a Rheoli Adnoddau Dŵr

9.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn cynnwys polisi sy'n ymwneud a risg llifogydd sy'n anelu i osgoi cael datblygu lle byddai mewn perygl o lifogydd yn deillio o afonydd, o'r cwrs dŵr arferol, o'r arfordir, o ddŵr wyneb neu lle y byddai'n cynyddu'r perygl o lifogydd neu ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiadau mewn mannau eraill. Mae'r Polisi yn adlewyrchu cyngor yng nghanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru NCT15 Perygl Llifogydd ac yn helpu i gyflawni amcanion y CDLlN sy'n ymwneud â pherygl llifogydd.

9.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i'r categorïau canlynol:

## Perygl Llifogydd a Lliniaru

- Dwedodd ymatebwyr y dylai'r CDLlN gynnwys cynlluniau lliniaru llifogydd cadarn, manwl wedi eu hamserlennu, yn enwedig ar gyfer cymunedau agored i niwed yn yr Arc Ddeheuol.

## Ansawdd Dŵr

- Galwodd ymatebwyr am osod targedau mesuradwy ac amserlen rwymol ar gyfer lleihau llygryddion sy'n mynd i afonydd a dŵr daear
- Cwestiynodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi (HBF) gynnwys gofynion gwella ansawdd dŵr, gan ddweud nad ydynt yn cael eu gorfodi gan bolisi cenedlaethol.

## SDCau (Systemau Draenio Cynaliadwy)

- Nododd HBF fod SDCau eisoes wedi'u cwmpasu gan ddeddfwriaeth ar wahân ac na ddylid eu dyblygu mewn polisïau CDLlN.

## Cynllunio Seilwaith

- Cododd ymatebwyr bryderon am ofynion polisi sy'n gorgyffwrdd a diffyg eglurder ynghylch sut mae darparu seilwaith yn cyd-fynd â SDCau a strategaethau draenio sydd eisoes yn ofynnol o dan Bolisi Cynllunio Cymru (PCC)

## Aliniad â NCT15 neu Ganllawiau Cenedlaethol

- Cwestiynodd ymatebwyr a yw polisïau'r CDLlN yn cyd-fynd â NCT15 a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC), yn enwedig o ran ansawdd dŵr a draenio.

- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i osgoi dyblygu gofynion statudol a sicrhau cysondeb â chanllawiau cenedlaethol.

9.3 Mewn ymateb i sylwadau sy'n ceisio diwygiadau i'r polisïau neu'r testun ategol, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadarnhad heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r materion hyn. Felly, nid yw'r newid arfaethedig yn cael ei ystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

9.4 Mewn ymateb i'r materion eraill, mae'n bwysig nodi y bydd eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau yn cael ei ddarparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r sylwadau sy'n ceisio eglurhad pellach ar ystod o faterion.

# 10. Sero Net, Ynni Adnewyddadwy a Newid Hinsawdd

10.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn hyrwyddo datblygiad sy'n lliniaru achosion newid yn yr hinsawdd, ac sy'n gallu addasu i'w effeithiau tebygol. Mae polisïau yn gofyn am gynigion datblygu i ddilyn yr hierarchaeth ynni ac atal datblygiad sy'n rhoi baich datgarboneiddio ychwanegol ar y ddinas. Mae polisïau hefyd yn ceisio amddiffyn a chynyddu sinciau carbon a chynyddu effeithlonrwydd ynni a chyflenwad ynni adnewyddadwy.

10.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i'r categorïau canlynol:

## Targedau Carbon Niwtral

- Galwodd ymatebwyr am ymrwymiad cryfach i niwtraliaeth garbon ac annog y CDLlN i nodi'n glir amserlenni a phrosesau craffu gorfodadwy ar gyfer cyflawni dinas garbon niwtral erbyn 2030.
- Ymagwedd cylch bywyd cyfan: Galwodd ymatebwyr am ehangu cwmpas polisïau sero net i gynnwys allyriadau anuniongyrchol a charbon ymgorfforedig, nid defnydd ynni gweithredol yn unig.

## Asesiadau Carbon Oes Gyfan

- Dwedodd yr ymatebwyr y dylai Polisi RE2 ei gwneud yn ofynnol cael asesiadau carbon oes gyfan ar gyfer pob datblygiad.
- Galwodd ymatebwyr am ddisodli "datganiad ynni" gyda "datganiad ynni ac allyriadau" sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos sut y gellir addasu adeiladau i gwrdd â sero net yn y dyfodol os nad ydynt yn hyfyw ar hyn o bryd.

## Effeithlonrwydd Ynni a Seilwaith Adnewyddadwy

- Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r dull ffabrig yn gyntaf ac roedd datblygwyr yn eiriol dros flaenoriaethu technegau adeiladu cynaliadwy a chadwyni cyflenwi lleol.

## Pryderon Hyfywedd

- Gofynnodd datblygwyr am eglurder ar sut y byddai taliadau gwrthbwyso carbon yn cael eu cyfrifo a'u defnyddio.
- Angen am hyblygrwydd: Cododd ymatebwyr bryderon am ddichonoldeb cymhwyso safonau sero net i bob datblygiad, yn enwedig safleoedd llai.

## Aliniad Polisi â Chanllawiau Cenedlaethol

- Nododd rhai ymatebwyr ddiffygion yn y modd y dyfynnwyd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn y CDLlN.
- Dadleuodd yr HBF fod y trothwy o 100 o unedau ar gyfer cymhwyso safonau cynaliadwyedd uwch yn rhy isel a dylai fod yn berthnasol i ddyraniadau strategol mwy yn unig.

10.3 Ystyrir bod y CDLlN Adneuo yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn ogystal, darperir eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

# 11. Treftadaeth

11.1 Nod y CDLlN Adneuo yw gwarchod, rheoli a gwella asedau treftadaeth nodedig Caerdydd gan gynnwys cymeriad a lleoliad ei Henebion Cofrestredig; Adeiladau Rhestredig; Parciau a Gerddi Hanesyddol; ArdaloeddCadwraeth; Adeiladau Rhestredig yn Lleol a nodweddion eraill o ddiddordeb lleol sy’n cyfrannu’n bositif i hynodrwydd y ddinas.

11.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i’r categorïau canlynol:

## Gwarchod Adeiladau Hanesyddol

- Roedd ymatebwyr yn cefnogi gwarchod adeiladau hanesyddol Caerdydd ac yn galw am bolisïau cadarn i ddiogelu asedau treftadaeth rhag datblygiad amhriodol.

## Ardaloedd Cadwraeth

- Gofynnodd ymatebwyr am gyfranogiad cymunedol wrth reoli ardaloedd cadwraeth gan gefnogi Polisi HE1 sy'n cryfhau amddiffyniad adeiladau rhestredig a pharthau cadwraeth.

## Treftadaeth Ddiwylliannol

- Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol wrth siapio hunaniaeth Caerdydd.

11.3 Mewn ymateb i'r sylwadau ystyrir bod y CDLlN yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn ogystal, darperir eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

# 12. Llygredd Aer, Sŵn a Thir Halogedig

12.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn ceisio atal niwed annerbyniol sy'n deillio o lygredd aer, sŵn, llygredd golau, a lefelau annerbyniol o halogi tir.

12.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i'r categorïau canlynol:

## Ansawdd Aer

- Cododd ymatebwyr bryderon am fwy o lygredd aer oherwydd datblygiadau tai ar hyd yr M4, a allai arwain at fwy o ddefnydd o geir gan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus i'r ardaloedd hyn.

## Llygredd Sŵn

- Cododd ymatebwyr bryderon am lefelau sŵn uwch gan draffig oherwydd datblygiadau tai ger y prif ffyrdd.

## Halogiad Tir

- Dwedodd ymatebwyr y dylai'r CDLlN amlinellu'n glir sut y bydd safleoedd gwaddol halogedig yn cael eu hasesu ar gyfer risgiau i iechyd pobl a natur a gofyn am baratoi strategaethau adfer manwl i adnabod ac atal halogiad yn y dyfodol.

## Sefydlogrwydd Tir.

- Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch hepgor meini prawf ansefydlogrwydd tir ym Mholisi PC1 ac argymell adfer lle bo angen.

12.3 Mewn ymateb i’r sylwadau ystyrir bod y CDLlN yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

# 13. Dylunio a Chreu Lleoedd

13.1 Mae’r CDLlN Adneuo yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad newydd fod o’r ansawdd pensaernïol uchaf, yn ddyluniad cynaliadwy a gwneud cyfraniad cadarnhaol i greu cymunedau, lleoedd a gofodau unigryw ac iach drwy. Er mwyn sicrhau hyn bydd angen ymagwedd uwch-gynllunio ar safleoedd neu ddatblygiadau strategol presennol ac yn y dyfodol sydd â mwy na 100 o gartrefi, neu unrhyw brosiect sy'n cynnwys mwy nag un cam datblygu.

13.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i’r categorïau canlynol:

## Ansawdd Dylunio

- Pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i adeiladu dinas hardd, wydn ac amlwg ei Chymreictod, gyda phensaernïaeth o ansawdd uchel a dyluniad sy'n ymateb i'r hinsawdd.
- Beirniadodd ymatebwyr ddyluniad gwael mewn datblygiadau blociau fflatiau uchel, yn enwedig ym Mae Caerdydd, a galw am fwy o adeiladwyr lleol, ar raddfa fach.
- Roedd ymatebwyr yn cefnogi dylunio cynhwysol gan awgrymu cynnwys cyfeiriad at anableddau cudd a niwroamrywiaeth yn iaith y polisi.

## Egwyddorion Creu Lleoedd

- Roedd ymatebwyr yn argymell defnydd cryfach o gytundebau A106 a chyfranogiad cynnar y gymuned mewn creu lleoedd.
- Awgrymodd ymatebwyr y dylid cynnwys lles meddyliol a chorfforol, bioamrywiaeth, a therfynau uchder yn y canllawiau creu lleoedd.
- Roedd ymatebwyr yn cefnogi uwchgynllunio, yn enwedig ar gyfer safleoedd strategol.
- Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r model cymdogaeth 15 munud, gyda phwyslais ar deithio llesol, seilwaith beicio, a dibyniaeth isel ar geir.

## Hygyrchedd

- Anogodd ymatebwyr gynllunwyr i brofi'r ddinas trwy lygaid amrywiol, gan gynnwys plant, henoed a phobl anabl.

## Adeiladau Uchel

- Cododd ymatebwyr bryderon am ansawdd esthetig a hirhoedledd adeiladau uchel newydd a galw am gyfyngiadau uchder ger ardaloedd hanesyddol, a hyrwyddo datblygiad ar raddfa ddynol gyda deunyddiau naturiol a gwyrddni.

## Cartrefi Gydol Oes

- Roedd ymatebwyr yn cefnogi dylunio cynhwysol, cartrefi gydol oes a chymdogaethau sy'n addasu i anghenion sy'n newid.
- Gofynnodd ymatebwyr fod trawsnewidiadau ac adeiladau newydd yn bodloni safonau gydol oes.
- Galwodd ymatebwyr am fonitro cyflwyno cartrefi gydol oes ar draws deiliadaeth a lleoliadau.

13.3 Mewn ymateb i sylwadau ystyrir bod y CDLlN yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn ogystal, bydd eglurhad pellach ar weithredu'r polisïau yn cael ei ddarparu mewn ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

# 14. Y Gymraeg

14.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn diffinio Caerdydd fel Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol i'r Gymraeg ac mae'n ceisio sicrhau a gwella cyfleoedd i dyfu'r Gymraeg mewn datblygiadau newydd. Disgwylir i gynigion datblygu nodi mesurau cadarnhaol sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i siarad yr iaith yn ddyddiol yn ogystal â nodi unrhyw fesurau lliniaru yn achos adnabod effeithiau andwyol.

14.2 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i’r categorïau canlynol:

## Darpariaeth Addysg

- Roedd ymatebwyr yn cefnogi'n eang addysg Gymraeg fel sbardun twf iaith.
- Dwedodd ymatebwyr nad oedd y targed o 50% o ddarpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddigonol gan alw am ddarpariaeth 100% mewn datblygiadau newydd.
- Galwodd ymatebwyr am ysgolion Cymraeg newydd mewn ardaloedd heb eu gwasanaethu fel Grangetown a de Caerdydd, gan nodi anghydraddoldeb addysgol a phellteroedd teithio hir.
- Tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen i alinio â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) a pholisi Dinasoedd Da i Blant UNICEF.
- Tynnodd yr ymatebwyr sylw at yr angen i gefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg i normaleiddio dwyieithrwydd o'r dechrau

## Aliniad Polisi Cynllunio

- Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi dynodiad Caerdydd fel ardal o arwyddocâd ieithyddol, gyda phwyslais ar dyfu a chadw siaradwyr Cymraeg drwy gyfleusterau cymunedol, tai a gwaith.
- Cododd ymatebwyr bryderon am iaith amwys mewn polisïau, yn enwedig yr ymadrodd "lle bo hynny'n berthnasol", a allai wanhau gweithredu.
- Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r gofyniad i ddatblygwyr nodi mesurau cadarnhaol i gefnogi'r Gymraeg ond yn galw am orfodi cryfach.
- Beirniadodd ymatebwyr ddull lliniaru SP15, gan ddadlau ei fod yn golygu derbyn niwed yn hytrach nag atal.

## Gweledodd Diwylliannol

- Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r defnydd o enwau Cymraeg mewn cynigion datblygu i atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol ac annog defnydd iaith bob dydd ac argymell eu bod wedi'u gwreiddio mewn hanes a thafodiaith leol.

14.3 Mewn ymateb i sylwadau ystyrir bod y CDLlN Adneuo yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn. Yn ogystal, ceir rhagor o wybodaeth ym Mhapur Technegol Cefndir y Gymraeg a darperir eglurhad pellach mewn Canllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

# 15. Mwynau a Gwastraff

15.1 Mae'r CDLlN Adneuo yn nodi ystod o bolisïau sy'n ymwneud â mwynau a gwastraff. O ran mwynau, nod y CDLlN Adneuo yw cyfrannu at gyflenwadau

agregau rhanbarthol trwy hyrwyddo a chefnogi'r defnydd effeithlon o fwynau a'r defnydd o ddewisiadau amgen, diogelu cronfeydd mwynau presennol a diogelu adnoddau posibl rhag datblygiad parhaol gan gynnwys adnoddau tywod a graean ac adnoddau calchfaen a chynnal banc tir 10 mlynedd o gronfeydd wrth gefn o agregau a ganiateir yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cynllun yn ceisio diogelu glanfeydd tywod yn nociau Caerdydd rhag datblygu, yn nodi meini prawf ar gyfer y drefn a ffefrir o ryddhau adnoddau mwynol ac yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â chau chwareli a therfynau estyniadau, clustogfeydd mwynau ac adfer ac ar ôl defnyddio gweithfeydd mwynau.

15.2 O ran gwastraff, mae'r CDLlN Adneuo yn ceisio rheoli gwastraff sy'n codi yn y ddinas trwy hyrwyddo a chefnogi cyfleusterau trin gwastraff cynaliadwy ychwanegol, annog darparu cyfleusterau trin yn yr adeilad mewn ardaloedd presennol o ddiwydiant cyffredinol, cefnogi darparu a chynnal cyfleusterau rheoli a storio gwastraff cynaliadwy mewn datblygiadau newydd a chefnogi lleihau gwastraff a darparu cyfleusterau sy'n defnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu neu wedi'u compostio. Roedd manylion yn gosod fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

15.3 Derbyniwyd sawl ymateb a gellir eu grwpio i’r categorïau canlynol:

## Diogelu Mwynau

- Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu adnoddau mwynol a seilwaith hysbys, yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a MTAN1.

## Gweithrediadau Chwarel

- Cododd ymatebwyr bryderon am effaith chwarelydda ar ardaloedd preswyl a bioamrywiaeth.
- Gofynnodd ymatebwyr am gyfyngiadau ar symudiadau cerbydau ac oriau gweithredu ac am drefniadau cyswllt cymunedol gyda gweithredwyr chwarel.
- Cododd ymatebwyr bryderon am lygredd a difrod ecolegol o weithrediadau echdynnu mwynau a gwastraff a galw am fesurau diogelu'r amgylchedd cryfach ac asesiadau effaith.

## Seilwaith Ailgylchu a Gwastraff

- Galwodd ymatebwyr am adolygiad o ddarpariaeth canolfannau ailgylchu, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Caerdydd, i sicrhau hygyrchedd a chapasiti.

## Aliniad Polisi â Chanllawiau Cenedlaethol

- Gofynnodd ymatebwyr am gyfeiriadau cliriach at ddosrannu agregau rhanbarthol a chydlynu strategol.

15.4 Mewn ymateb i sylwadau sy'n ceisio diwygiadau i'r polisïau neu'r testun ategol, ystyrir bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r materion hyn. Felly, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod y CDLlN yn gadarn.

15.5 Mewn ymateb i'r materion eraill, nodir digon o dystiolaeth am y rhesymau y tu ôl i'r polisïau yn y Papurau Technegol Cefndir Mwynau a Gwastraff ac mae'r Cynllun yn cwrdd â'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau o ran y materion hyn.

# 16. Y Broses Ymgynghori

16.1 Mae'r broses ymgynghori ar gyfer paratoi'r CDLlN wedi'i nodi'n fanwl yn yr Adroddiad Ymgynghori. Gellir grwpio ymatebion a ddaeth i law i'r categorïau canlynol:

## Hygyrchedd

- Dwedodd yr ymatebwyr fod fformatau PDF safonol yn anhygyrch i lawer o ddefnyddwyr anabl, a bod pobl anabl yn gorfod gofyn am fformatau hygyrch, gan dorri'r ddyletswydd rhagweld o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n golygu bod y rhai sydd angen fformatau amgen yn cael llai o amser i ymateb.

## Cydraddoldeb

- Dwedodd yr ymatebwyr fod y cynllun wedi methu â dangos cydymffurfiaeth ag Erthygl 14 y Ddeddf Hawliau Dynol, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac ystyriwyd bod y broses ymgynghori yn wahaniaethol o dan Adrannau 15 a 19 y Ddeddf Cydraddoldeb.
- Dwedodd yr ymatebwyr fod diffyg asesiad effaith cydraddoldeb cyhoeddedig yn codi pryderon ynghylch ystyriaeth briodol i ddyletswyddau cydraddoldeb.

## Cydymffurfiaeth Gyfreithiol

- Cododd ymatebwyr bryderon nad oedd yr ymgynghoriad yn cyd-fynd

â'r Cytundeb Cyflawni na'r Cynllun Cynnwys Cymunedau gan ddadlau fod y CDLlN wedi methu profion cadernid gweithdrefnol.

## Dulliau Ymgysylltu

- Cododd ymatebwyr bryderon bod y sesiynau galw heibio yn anghyfleus a’r mynychu'n wael a nodi y dylid rhannu'r ddogfen yn adrannau llai, yn seiliedig ar bwnc er mwyn gwell hygyrchedd.
- Beirniadodd ymatebwyr fethiant y Cyngor i ymgysylltu â chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli a galw am rownd ymgynghori ychwanegol gyda gwell hygyrchedd.

16.2 Mewn ymateb i'r sylwadau, ystyrir bod proses ymgysylltu gynhwysfawr wedi'i chynnal ar baratoi'r CDLlN dros y 4 blynedd diwethaf fel y nodir yn fanwl yn yr Adroddiad Ymgynghori. Mae'r broses hon wedi'i chynnal yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â'r Rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. O ystyried hyn fe ystyrir bod y CDLlN Adneuo yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am newidiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn.

16.3 Yn ogystal, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r canllawiau perthnasol ac fe'i cynhwysir fel papur cefndir i'r CDLlN Adneuo.